Datganiad i'r wasg

30 Tachwedd 2009

EISTEDDFOD YR URDD, CEREDIGION YN YMESTYN DROS DDENG NIWRNOD

Bydd gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymestyn dros ddeng niwrnod y flwyddyn nesaf yng Ngheredigion o'i gymharu â saith niwrnod yng Nghaerdydd eleni, gyda digwyddiadau gyda'r nos yn cychwyn brynhawn Gwener, 27ain o Fai.

Ieuenctid yr ardal fydd yn cychwyn bwrlwm yr Eisteddfod brynhawn Gwener, gyda pherfformiad o sioe gerdd wedi ei chomisiynu'n arbennig ar gyfer yr ŵyl dan gyfarwyddyd Jeremy Turner a Theatr Arad Goch. Fe fydd yr ieuenctid, sef disgyblion ysgolion uwchradd ardal Ceredigion yn perfformio yn Theatr Felin-fach hyd nos Fawrth, 1af o Fehefin.

Daw clo i'r digwyddiadau nos Sul, 6ed o Fai gyda Chymanfa Ganu a gynhelir yng Nghapel Tabernacl Aberaeron. Bydd y cystadlu yn parhau fel arfer – yn cychwyn fore Llun ac yn gorffen nos Sadwrn – a'r maes ar agor i gyd-fynd â'r cystadlu.

"Rydym wedi penderfynu cychwyn y gweithgareddau nos ynghynt yn 2010," medd Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. "Yn wahanol i eleni yng Nghaerdydd, mae gennym sioe gynradd yn ogystal â sioe i ddisgyblion yr ysgolion uwchradd. Er mwyn sicrhau fod modd i bawb weld yr holl gyngherddau a pherfformiadau, rydym am lwyfannu'r sioe ieuenctid o'r dydd Gwener cyn i'r 'maes' agor.

"Rydym hefyd wedi sicrhau fod yr ieuenctid yn perfformio ar ddechrau'r ŵyl gan sicrhau y byddant yn rhydd i gystadlu ddiwedd yr wythnos," ychwanegodd Aled Siôn.

"Er mai dim ond megis dechrau mis Rhagfyr yw hi, rydym yn disgwyl wythnos brysur iawn wrth i ni ryddhau tocynnau ar gyfer digwyddiadau'r dydd a thocynnau maes yfory, 1af o Ragfyr."

Bydd plant ysgolion cynradd Ceredigion yn dathlu bywyd a gwaith un o awduron plant mwyaf toreithiog a phoblogaidd Cymru. Bu T Llew Jones, fu farw ddechrau'r flwyddyn, yn athro mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion am 35 o flynyddoedd a dros wythnos yr Eisteddfod bydd ei fywyd a'i waith yn dod yn fyw, drwy gyfrwng sioe gerdd newydd sbon a gomisiynwyd ar gyfer yr ŵyl.

Dwynwen Lloyd Evans a'i thîm o Theatr Felinfach fydd wrth y llyw wrth i'r plant baratoi ar gyfer y perfformiadau ym mhafiliwn yr Eisteddfod nos Fawrth, 1af a nos Fercher yr 2il o Fehefin.

"Rydym eisoes wedi cael nifer o gyfarfodydd i drafod syniadau posib ar gyfer y sioe," medd Dwynwen sy'n hen law ar gyfarwyddo cynyrchiadau mawr, cymunedol ac yn edrych ymlaen at ei sialens ddiweddaraf. "Unwaith i ni gwblhau'r tîm o ysgrifenwyr, fydd yn cynnwys dramodwyr ac awduron talentog, lleol bydd y gwaith o sgriptio yn cychwyn o ddifri.

"Mae dathlu gwaith un o'n awduron lleol, un oedd mor dalentog ac yn ffigwr poblogaidd drwy'r wlad wedi bod yn ddyhead o'r cychwyn," meddai Dwynwen. "Wedi marwolaeth T Llew Jones yn

gynharach eleni roedd yna ymdeimlad cryf fod angen creu rhywbeth i anrhydeddu ei waith a'i gyfraniad."

Bydd y Cyngerdd Agoriadol yn y Pafiliwn, nos Sul 30ain o Fai yn agoriad teilwng i'r ŵyl gyda pherfformiadau gan artistiaid lleol a chenedlaethol. Mae'r Cyngerdd yn argoeli'n noson wefreiddiol fydd yn esgor ar wythnos wych o berfformiadau.

I brynu tocynnau i'r digwyddiadau i gyd – gan gynnwys tocynnau maes, gellir mynd i www.urdd.org/eisteddfod neu ffonio 0845 257 1639.

Diwedd

DIGWYDDIADAU GYDA'R HWYR – EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CEREDIGION 2010

DYDD	DIGWYDDIAD	LLEOLIAD	PRISIAU
Prynhawn Gwener 28/05/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Nos Wener 28/05/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Nos Sadwrn 29/05/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Prynhawn Sul 30/05/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Nos Sul 30/05/10	Cyngerdd Agoriadol	Pafiliwn	£15, £12
Nos Lun 31/05/10	Cystadleuaeth y Gan Actol (Cynradd)	Pafiliwn	£8, £6
Nos Lun 31/05/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Nos Fawrth 01/06/10	Sioe Gynradd T.Llew Jones	Pafiliwn	£12, £8
Nos Fawrth 01/06/10	Sioe Ieuenctid	Theatr Felin-fach	£12
Nos Fercher 02/06/10	Sioe Gynradd T.Llew Jones	Pafiliwn	£12, £8
Nos Iau 03/06/10	Noson o Gystadlu	Pafiliwn	Mynediad trwy docyn maes
Nos Wener 04/06/10	Cystadleuaeth y Cerddorfeydd	Pafiliwn	£6
Nos Sadwrn 05/06/10	Noson o Gystadlu	Pafiliwn	Mynediad trwy docyn maes
Nos Sul 06/06/10	Cymanfa Ganu	Capel Tabernacl, Aberaeron	£6

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Non Tudur Williams ar nontudur@urdd.org neu 07968 446369

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.

Press release

30 November 2009

URDD NATIONAL EISTEDDFOD EXTENDED AT CEREDIGION

Europe's largest youth festival, the Urdd National Eisteddfod is to be extended to ten days next year in Ceredigion. This is in comparison to the seven day festival held in Cardiff earlier this year.

The area's youngsters will kick-start the proceedings on Friday afternoon, 27th May with a performance of a specially-commissioned show under the direction of Jeremy Turner and Theatr Arad Goch. The youngsters, all pupils at Ceredigion's secondary schools will be performing at Theatr Felin-fach until Tuesday, 1st of June.

The Eisteddfod will draw to a close on Sunday, 6th of May with a Cymanfa Ganu, held at the Tabernacl Chapel in Aberaeron.

The competitions will remain unchanged – starting on Monday morning and finishing on Saturday evening – with the 'maes' open to coincide with the competitions.

"We've decided to kick –off the evening performances before the Eisteddfod starts in earnest," said Aled Siôn. "Next year there will be a junior and secondary school performance, which differs from this year when the Eisteddfod was in Cardiff. To ensure everyone has a chance to see the shows and concerts, the first performance will be on the Friday before half term week.

"We've also ensured that the older performers will be taking part at the beginning of the festival, giving them time to compete at the end of the week," added Aled Siôn.

"Even though it's only the beginning of December, we're looking forward to a busy week as tickets are released for the 'maes' as well as the evening performances on December 1st."

Primary school children from Ceredigion will be paying homage to one of Wales' most prolific and inspiring children's authors at next year's Urdd National Eisteddfod in Llanerchaeron. T Llew Jones, a primary school teacher in Ceredigion for 35 years, died earlier this year and the Eisteddfod week will see his life and works come alive in a musical extravaganza commissioned especially for the Eisteddfod.

Dwynwen Lloyd Evans and her team at Theatr Felinfach will be leading the children from local primary schools across the county as they tread the Eisteddfod pavilion's boards on Tuesday, 1st and Wednesday, 2nd of June.

"We've already sat around the table and discussed possible ideas for the show," said Dwynwen who has directed many large, community productions in the past and is looking forward to her latest challenge. "Once we've finalised our team of writers, which will consist of local, talented dramatists and authors, we'll start working on the script.

"There's been an aspiration from the start to work on something to celebrate one of our most cherished local authors, who is loved nationally. T Llew Jones died earlier this year and everyone involved in the production feels this is a great way to honour his work," she continued.

The Opening Concert at the Pavilion on Sunday, 30th May will be a fitting start to the festival with local and national talent on show in what promises to be a fantastic spectacle to mark the beginning of a wonderful week of performances.

More information about the performances as well as ticket prices and how to purchase tickets are available on www.urdd.org/eisteddfod or by calling 0845 257 1639.

Ends

EVENING CONCERTS – URDD NATIONAL EISTEDDFOD, CEREDIGION 2010

DAY	EVENT	LOCATION	TICKET PRICE
Friday Afternoon 28/05/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12
Friday Evening 28/05/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12
Saturday Evening 29/05/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12
Sunday Afternoon 30/05/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12
Sunday Evening 30/05/10	Opening Concert	Eisteddfod Pavilion	£15, £12
Monday Evening 31/05/10	Action Song Competition (Primary Shools)	Eisteddfod Pavilion	£8, £6
Monday Evening 31/05/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12
Tuesday Evening 01/06/10	Primary Schools Pageant T.Llew Jones	Eisteddfod Pavilion	£12, £8
Tuesday Evening 01/06/10	Youth Theatre	Theatr Felin-fach	£12

Wednesday Evening 02/06/10	Primary Schools Pageant T.Llew Jones	Eisteddfod Pavilion	£12, £8
Thursday Evening 03/06/10	An evening of competitions	Eisteddfod Pavilion	Entry with day ticket
Friday Evening 04/06/10	Orchestra Competition	Eisteddfod Pavilion	£6
Saturday Evening 05/06/10	An evening of competitions	Eisteddfod Pavilion	Entry with day ticket
Sunday Evening 06/06/10	Cymanfa Ganu	Tabernacl, Aberaeron	£6

Further information, contact Non Tudur Williams: nontudur@urdd.org or on 07968 446369

- Urdd Gobaith Cymru is Wales' Largest Youth Organisation
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years
- Urdd Gobaith Cymru has over 51,000 members between 8 and 25 years old
- The aim of the Urdd is to give the children and young people of Wales an opportunity to live their lives through the medium of Welsh, developing confidence and respect for each other and the people of the world
- Urdd activities include tours and visits, sports, eisteddfod, magazines, adrannau and aelwydydd and residential centres